**TGAU**

3010N10-1

S23-3010N10-1

**DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.

**Yn y cerddi mae'r beirdd yn sôn am berthynas ramantus sydd wedi newid dros amser**. **Cymharwch y ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
  - Dywedwch beth yw'r stori sydd yn y cerddi.
  - Beth sy'n debyg/wahanol yn y ddwy stori?
  - Beth ydy neges y ddau fardd i ni?

- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd** arddull/mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol

- nodi pa **un** o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. [40]

**Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor**

Yn fan hyn, aeafau'n ôl,
yn ddifaddau o feddwol,
fe'i gwelais; estynnais stôl.

Ordrais beint ar draws y bar
a'i gwylio, yn llawn galar,
yn ei sgert trwy'r mwg sigâr.

Yn ei llygaid tanbaid hi
roedd 'na gefnfor o stori,
a hyder a direidi

yn eu llawnder i'n herio,
trwy ryw wyrth, y dôi ein tro
ond a dal i'w lled-wylio...

Ym mrad yr edrychiadau,
yn sŵn ein dawns ni ein dau,
am ei swyn mi es innau

yn rhy ddedwydd freuddwydiol,
yn ddifaddau o feddwol,
yn fan hyn, aeafau'n ôl.

Rhys Iorwerth

**Môr o gariad**

Eistedd yma'n unig 'ben fy hun,
Heno 'sdim amynedd i *helbul byd,
ond mae'r nos yn *ffoi, fel mae'r byd yn troi
fel y môr o gariad a roddais i ti.

'Sdim byd yma heno ond *adlais cariad mawr,
a'n gwydrau *gweigion ar y llawr
ac i *gwpla'r llun
yn y botel, *gwaddod gwin –
gwaddod y môr o gariad a roddais i ti.

Hwn oedd cariad glân,
hwn oedd cariad *ffôl,
roeddwn i ar dân –
nawr 'sdim ar ôl.

Strydoedd oer y ddinas,
strydoedd mor llawn;
atgofion fydd amdani,
ei *serch a'i dawn.
**Serch hynny mae'n rhaid byw,
ymuno efo hwyl y criw.
Sych yw'r môr o gariad
a roddais i ti.

Meic Stevens

**Geirfa**

helbul – helynt / trafferthion
ffoi – dianc

adlais – cofio am
gweigion – gwag
gwpla / cwpla – gorffen
gwaddod – gweddill, beth sydd ar ôl

ffôl – gwirion

*serch – cariad
**serch – er

**DIWEDD Y PAPUR**

**TGAU**

3010N10-1A

S23-3010N10-1A

**DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau.**
**Clawr blaen y papur arholiad yn unig yw'r daflen hon.**
***This is the front cover of the examination paper only.***
***English instructions overleaf*.**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad 3010N10-1 bydd angen llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

GCSE

3010N10-1A

S23-3010N10-1A

**FRIDAY, 26 MAY 2023 – AFTERNOON**

# *WELSH LITERATURE*

***UNIT 1: Poetry***
***FOUNDATION TIER***

*1 hour 15 minutes*

***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***

***ADDITIONAL MATERIALS***

*As well as examination paper 3010N10-1 you will need a WJEC pink 16-page answer booklet.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*There is* **one compulsory question** *on poetry in this paper.*
*You cannot use dictionaries.*
*You should spend 15 minutes planning your answer.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*40 marks are awarded for this question.*
*The structure and accuracy of your writing will be considered as part of the assessment.*


© WJEC CBAC Ltd.